

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 25AIN O FAWRTH 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL:

Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Bari Evans, Edmund Evans, Ian Evans, Rhian Evans, Helen Jones, Arwel Davies, Stephen Williams, Manon Davies, Rhian Jones a'r Clerc.

1: CROESAWYD Y CADEIRYDD I'R DDAU AELOD NEWYDD Y CYNGOR, SEF EDMUND EVANS A STEPHEN WILLIAMS.

Chwblhawyd y ddau aelod newydd ffurflen "Datganiad Derbyn Swydd" o dan Adran 83 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

2. YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB:

Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 4ydd o Fawrth 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.

Nid oedd y Cadeirydd wedi cael ymateb oddi wrth Ben Wilcox-Jones ynglŷn â dymuniad y Cyngor i brynu arwyddion ychwanegol 20 filltir yr awr sydd yn fflachio. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ar ofynnant y Cyngor Cymuned.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.

Neb yn bresennol.

7. DIWEDDARAF CYFRIFON Y CYNGOR AM Y PEDAIR BLYNEDD YN DIWEDDU 31AIN O FAWRTH 2023.

Dim newyddion bellach ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

8. AROLWG ANGHENION TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.

Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar fin chwblhau'r gwelliant yr arolwg.

## 9. CYLLID.

A: Diweddaraf banc y Cyngor £26,624.68.

B. Taliadau:-

1. Ffi fisol HSBC £5.00.
2. Ffi aelodaeth 2024/25 Un Llais Cymru £196.00.
3. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2024 £501.90.
4. Taliadau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2024 £715.60.
5. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2024 £125.60.

C. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr – penderfynwyd am y rhodd £1,000.00.

D. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Gymdeithas Maes-y-Plwm – Penderfynwyd am y rhodd o £500.00.

## 10. LWFANS BLYNYDDOL 2023/24 AELODAU'R CYNGOR.

Derbyniwyd yr Aelodau trwy e-bost y Clerc ffurflen "Lwfans Blynyddol 2023/24 Aelodau'r Cyngor.

## 11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Planning Application: 23/2023/0782 - Change of use of land by the siting of 3 number holiday pods and associate decking areas, installation of a package treatment plant, formation of internal tracks and parking and associated works on land adjacent Fron Ystrad, Llanrhaeadr. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar y sail:-

1. No consideration has been given to the approved holiday chalets at:-

A. The Springs - Shepherd Huts.

B. The Lodges - Holiday Chalets.

C. Bryn Morfydd Caravan Site.

2. There is insufficient visibility splay designed into the scheme to the proposed access particularly considering the intensification of use and unfamiliar road/junction users.

3. There are no foul drainage and SUDS report provided with the planning application.

B. Planning Application: 23/2023/0878 - Formation of an additional 25 caravan pitches including the construction of internal roads, connections to existing package treatment plant and associated works at Gaer Mynydd Farm, Saron. Cadarnhawyd yr Aelodau fod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais i'r sylwadau a rhoddwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

C. Planning Application: 23/2023/0910 - Installation of first floor balcony to side of dwelling at Tŷ'n Bedw, Prion. Cais wedi ei chaniatáu gan Gyngor Sir Ddinbych.

D. Planning Application: 23/2024/0028 - Demolition of existing conservatory and erection of single storey extension to dwelling and associated works at Brŷn Rossa, Prion. Ar bleidlais mwyafrif ddim yn gwrthwynebu'r cais a phenderfynwyd ar y sylwadau canlynol:-

1. The proposed planning application is unsympathetic.

2. The proposed extension is too large in comparison to the existing dwelling.

3. Not in keeping with local properties. .

E. Planning Application: 23/2004/0051 - Demolition of existing outbuilding and erection of two storey extension including intergal garage to side of dwelling at Tyddyn Isa', Prion. Dim gwrthwynebiad.

F. Planning Application: 23/2024/0106 - Erection of a two storey extension to the side of dwelling and associated works at Rhewl Isa', Prion. Dim gwrthwynebiad.

## 12. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y misoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2024:-

A: Cyngorydd Stephen Williams yn mynychu'r modiwl "Gynefin i Gynghorwyr Newydd" a'r 3ydd o Ebrill 2024.

B. Cyngorydd Arwel Davies yn mynychu'r Modiwl 7 "Iechyd a Diogelwch" ar 15fed o Ebrill 2024.

C. Cyngorydd Helen Williams yn mynychu'r modiwl "Gynefino i Gynghorwyr Newydd" a'r 9fed o Fai 2024.

## 13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Tyllau yn y ffyrdd canlynol:-

- 1: Rhwng Lon a Tŷ Cerrig ym Mhrion.
  2. Heibio Rhiwlas Uchaf ym Mhrion.
  3. Rhwng Pen-y-Gerddi a College Farm ym Mheniel.
  4. Rhwng yr Hen Ficerdy a Llewesog Isa' rhwng Llanrhaeadr a Prion.
  5. A525 rhwng Llan Llanrhaeadr a Pentre' Llanrhaeadr.
- B. Ambell arwydd ffyrdd wedi eu troi ym Mhrion.

## 14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Dim yn codi.

## 15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 29AIN O EBRILL 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEDR AM 7.30 O'R GLOCH.